Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Ymateb i ymgynghoriad

## Rheoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig gyda chanllawiau ategol sy'n ymwneud â meysydd eraill o wasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig

**Llywodraeth Cymru - Y Gangen Polisi Cartref Gofal**

Cyflwynwyd: 07 Awst 2023

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.  Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

# Sylwadau cyffredinol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r cynigion yn ymwneud â rhagnodi **gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig fel gwasanaeth** a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - ond eu dynodi'n wahanol i wasanaethau cartrefi gofal.

Deallwn y caiff y newidiadau hyn eu cynnig yn bennaf i hwyluso gwaith arolygu AGC. Fodd bynnag, rydym am sicrhau bod eglurder o ran ein pŵer i ymchwilio i gwynion am y gofal a ddarperir yn y lleoliadau hynny.

Mae diffiniad 'cartref gofal' o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn ymwneud â gwasanaethau gofal a ddarperir i bobl dros 18 oed.  Ar sail hyn, ni fyddai modd i ni ymchwilio i gwynion am ofal a ddarperir mewn gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Ymhellach, er y daw cyrff llywodraethu ysgolion (ysgolion cymuned, sylfaen, gwirfoddol) o fewn ein cylch gwaith, dim ond i raddau cyfyngedig y mae hyn mewn perthynas â materion cyfyngedig megis derbyniadau.

Nodwn fod y 'Canllawiau Statudol' arfaethedig i 'ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig ynghylch bodloni'r safonau gwasanaeth' yn datgan fod angen i ddarparwyr sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn gwynion, ac yn y cyd-destun hwnnw, yn cyhoeddi'r hawl i gwyno wrthym.

Mae'r geiriad hwn yn ymddangos i awgrymu mai'r bwriad yw i ni allu ystyried cwynion am ofal a ddarperir mewn gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig Os felly, byddem yn croesawu trafodaeth bellach ar sut i sicrhau nad oes unrhyw fylchau o ran mynediad at gyfiawnder i bobl sy'n derbyn gofal yn y lleoliadau hynny.

## Sylwadau cloi

Rydym yn hyderu y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombwdsmon.cymru).



**Michelle Morris**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Awst 2023